RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
01/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/01/2025

# Fframwaith ar gyfer newid

## Cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad Tystiolaeth Ategol 1 ar gyfer y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-000-7

Awduron: Fiona Verity a Mark Llewellyn

Verity, F. a Llewellyn, M. (2023) Fframwaith ar gyfer Newid: Cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 01/2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Dyma'r Adroddiad Fframwaith ar gyfer Newid sy'n un o bedair dogfen sy'n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn cyfosod canfyddiadau o'r adroddiad hwn, a thri arall sy'n darparu tystiolaeth ategol – yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024); yr adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp ar gysyniadu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (Wallace a Wallace, 2024): a'r adroddiad manwl ar y Cyfweliadau Cwmpasu (Bryer a Bebb, 2024).

## Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Tîm yr astudiaeth:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Heledd Bebb, Nia Bryer, Deborah Fitzsimmons, Tony Garthwaite, Mary Lynch, Llinos Haf Spencer, Sion Tetlow, Carolyn Wallace, a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Brunel Llundain; Prifysgol Abertawe, Ymchwil OB3, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon.

Prif arweinydd yr astudiaeth:

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@decymru.ac.uk

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Mark Llewellyn – Prifysgol De Cymru

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2
Trosolwg ..... 3
2. Cymhlethdod o ran syniadau, gofynion, pwysau. ..... 4
Cymhlethdod cysyniadol ..... 4
Cymhlethdod anghenion ..... 4
Cymhlethdod polisi ..... 5
Pensaernïaeth Polisi Cyhoeddus ..... 5
Newid ..... 7
Cymhlethdod adnoddau ..... 7
3. Trosolwg o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ..... 8
Integreiddio cefndirol mewn polisi ac ymarfer ..... 8
Cyflwyno'r RIF ..... 12
Cynaliadwyedd ..... 13
Canlyniadau rhaglen y RIF ..... 15
Crynodeb ..... 15
4. Fframwaith ar gyfer Newid ..... 16
Cyfeirnodau ..... 20

### Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Strwythur y RIF ..... 12
Ffigur 3.2: Cydgysylltedd model y RIF ..... 14

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth rhwng academyddion ar draws prifysgolion a sefydliadau ymchwil yng Nghymru a'r tu hwnt, i gynnal gwerthusiad o'r **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (2022-2027), a elwir o hyn allan yn RIF. Menter gwerth £144.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru yw'r RIF, i gefnogi'r gwaith parhaus o weithredu polisi cyhoeddus sydd â'r nod o gryfhau system iechyd a gofal cymdeithasol integredig, i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn well, a datblygu chwe model newydd o ofal integredig.

1.2 Mae'r bwriadau polisi cyhoeddus hyn gan y llywodraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth a strategaethau polisi allweddol, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r ddogfen bolisi, Cymru Iachach (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae symud yn 'gyflymach' wrth weithredu'r bwriadau hyn yn llinyn craidd drwy'r RIF. Yn y Rhagair i Ganllawiau'r RIF, mae'r tri Gweinidog oedd yn gyfrifol yn mynegi'r dyhead i '…gyflymu ein cynnydd i fynd ymhellach ac yn gyflymach i sicrhau'r gofal, y cymorth a'r canlyniadau gorau i bobl Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.2).

1.3 Mae'r ddogfen Fframwaith ar gyfer Newid hon yn drosolwg o'r gwerthoedd, y syniadau a'r dyheadau ar gyfer newid a nodir yn y RIF, yn erbyn cefndir y ffactorau cyd-destunol amrywiol a allai effeithio ar ei gweithrediad a'i heffeithiolrwydd ar draws y wlad. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys allbwn y gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa sy'n ceisio deall effaith gwahanol fodelau gofal, gan ymchwilio i gostau a manteision economaidd y modelau hynny a gwyntyllu i ba raddau y maent yn sicrhau'r canlyniadau cywir i bobl.

1.4 Yn seiliedig ar ddadansoddiad pen desg o bolisi sydd ar gael yn gyhoeddus a chanllawiau'r RIF, mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio arfarniad o'r canlynol:

- Yr hyn y mae'r RIF yn ceisio'i gyflawni.
- Ei thybiaethau sylfaenol a'i sbardunau polisi mewn cyd-destun hanesyddol.
- Prosesau ac egwyddorion arweiniol a ddefnyddir gan y RIF i sicrhau newidiadau a ddymunir.
- Disgrifiad o gyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y RIF, y mewnbynnau, a'r allbynnau a'r canlyniadau a fwriedir.

1.5 Rydym wedi galw’r disgrifiad hwn yn ‘Fframwaith ar gyfer Newid’. Mae’n gosod y llwyfan ar gyfer ein methodoleg gwerthuso trosfwaol, sef Gwerthusiad sy’n Canolbwyntio ar Egwyddorion (P-FE) (Patton, 2018). Dull gwerthuso yw P-FE sy’n gosod yn ganolog y cyd-destunau aml-symudol sy’n llywio’r ffordd y caiff ymyriad ei gysyniadu, ei weithredu a’i wireddu’n ymarferol.

**Trosolwg**

1.6 Mae'r ddogfen yn cychwyn gyda throsolwg eang o'r RIF, gan roi sylw i nodau ac amcanion y Gronfa a'r mecanweithiau allweddol ar gyfer cyflawni'r mentrau o dan y Gronfa. Dilynir hyn gan drosolwg byr o rai o nodweddion y tirlun cyd-destunol presennol, sy'n effeithio ar weithrediad y RIF a'i gwerthusiad. Mae'r adran olaf yn ddisgrifiad o sylfeini, gweithgareddau a chanlyniadau arfaethedig y RIF.

## 2. Cymhlethdod o ran syniadau, gofynion, pwysau.

2.1 Mae’r amgylchedd lle mae awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs), a darparwyr trydydd sector a phreifat yn gweithio i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn gymhleth, yn gyfnewidiol ac o dan bwysau. Mae Llewellyn et al (2023) wedi nodi cyfres o gymhlethdodau cyd-destunol a ddaeth i’r golwg wrth weithredu’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar draws y wlad, ac mae hynny’n berthnasol yma. Dyma nhw: cymhlethdod cysyniadol, cymhlethdod anghenion, cymhlethdod polisi, a chymhlethdod adnoddau (Llewellyn et al, 2023).

### Cymhlethdod cysyniadol

2.2 Nid yw’r syniadau a’r gwerthoedd sy’n sail i’r RIF yn cael eu derbyn gan bawb, er enghraifft mae yna wahanol ffyrdd o gysyniadu a gweithredu syniadau am atal, ymyrraeth gynnar, integreiddio a chynaliadwyedd. Mae hyn wedi’i nodi mewn llenyddiaeth helaeth, ac mae oblygiadau i lithrigrwydd diffiniadol o’r fath ar gyfer ymarfer a gwerthuso (Llewellyn et al, 2022).

2.3 Er enghraifft, mewn perthynas ag integreiddio, mae adroddiad gwerthuso terfynol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi:

> ‘…Gyda gwaith aml-asiantaethol, mae’r broblem yn cael ei henghreifftio gan adroddiadau yn y llenyddiaeth bod yna dros 70 o dermau ac ymadroddion o hyd a 175 o ddiffiniadau a chysyniadau o ofal integredig’ (Llewellyn et al, 2023, t.39).

Yn yr un modd, mae sawl ffordd y gellir disgrifio a gweithredu ‘atal’ (Skills for Care, 2014).

### Cymhlethdod anghenion

2.4 Ymateb yw’r RIF i’r brys i wneud pethau’n wahanol er mwyn diwallu ‘anghenion cymhleth’ a chynyddol am ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae’r rheidrwydd hwn yn ganolog i’r amrywiol ddogfennau polisi y cyfeirir atynt uchod ac mae wedi’i atgyfnerthu mewn areithiau a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Gymraeg (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd). Er enghraifft, mewn araith i Gynhadledd Comisiwn Bevan ar 6 Gorffennaf, 2023, dywedodd y Gweinidog:

‘Mae’r system o dan straen nas gwelwyd erioed o’r blaen ac mae’r galw am wasanaethau yn fwy nag erioed. Bydd rhaid i ni ofyn cwestiynau anodd ynghylch sut rydyn ni’n sicrhau’r newid yma ac yn addasu i bwysau parhaus’ (Llywodraeth Cymru, 2023).

**Cymhlethdod polisi**

2.5 Offeryn polisi Llywodraeth Cymru yw'r RIF er mwyn hybu’r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac ymdrechion ataliol sy'n ofynnol ym mholisïau cyhoeddus allweddol Cymru. Mae’r rheidrwydd hwn yn ymateb i natur y galw presennol a’r galw a ragwelir yn y boblogaeth iechyd a gofal cymdeithasol, y pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol a’r sefyllfa ariannol yng Nghymru (gweler er enghraifft, Llywodraeth Cymru 2011). Ar hyn o bryd, mae ystod o bolisïau sy'n gweithio er mwyn hyrwyddo agendâu tebyg.

2.6 Ar ben hynny, mae yna sawl dibyniaethau llwybr ar waith. Mae gweithredoedd awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a sefydliadau trydydd sector a darparwyr preifat, wrth weithio tuag at fodelau integredig o iechyd a gofal cymdeithasol ac oddi mewn iddynt, yn rhywbeth sydd â hanes sy’n mynd yn ôl i gyfnod cyn y RIF. Bydd ganddynt eu diwylliannau a'u prosesau sefydliadol integreiddiol ac ataliol eu hunain ac maent wedi'u lleoli mewn mannau daearyddol gyda'u cymunedau, eu nodweddion, eu diwylliannau a’u hamodau unigryw eu hunain.

2.7 Fel y manylir isod, bu sawl fersiwn o integreiddio a chydweithio ac ymdrechion ar y cyd i'r cyfeiriad hwn cyn cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Cymru Iachach, ac ers hynny.

**Pensaernïaeth Polisi Cyhoeddus**

2.8 Mae’r cyfeiriadau polisi trosfwaol sy’n arwain y RIF wedi’u nodi yn nyletswyddau cyfreithiol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r rhagnodion polisi yn y ddogfen Cymru Iachach.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014

2.9 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 i rym yn 2016. Dyma'r bensaernïaeth allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae’r ddeddfwriaeth yn dechrau fel a ganlyn:

‘Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol; gwneud darpariaeth ynghylch gwella’r canlyniadau llesiant i bobl y

mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth; gwneud darpariaeth ynghylch cydweithredu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella llesiant pobl; gwneud darpariaeth ynghylch cwynion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; ac at ddibenion cysylltiedig.' (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, t.1)

2.10 Mae pum egwyddor allweddol yn sail i'r Ddeddf: llais a rheolaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, cydgynhyrchu, gweithio amlasiantaethol, a sicrhau llesiant. Ei nod yw cefnogi trawsnewidiad a chynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac roedd yn benllanw proses hirfaith o ddatblygu polisi yn cwmpasu'r anawsterau, y rhwystrau a'r heriau a'r weledigaeth polisi. Mae dyletswyddau penodedig y Ddeddf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio (Rhan 4 a Rhan 9 y Ddeddf) yn arbennig o berthnasol i'r RIF.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.11 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r gofyniad i gynaliadwyedd fod yn ganolog yng ngwaith cynllunio a darparu awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd, a bod hyn yn cael ei wneud mewn partneriaethau cydweithredol 'i atal a mynd i'r afael â phroblemau'. Mae agenda benodol ar gyfer canlyniadau llesiant (mae saith nod llesiant integredig) a dull cydweithredol.

Cymru Iachach

2.12 Gweledigaeth fanwl o 'wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan' yw Cymru Iachach, gydag iechyd a llesiant ac atal yn ganolog iddi (2021, t.8). Mae gan Gymru Iachach bedair thema:

- "Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth;
- Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy" (2021, t.15).

2.13 Mae egwyddorion dylunio gwasanaethau a rhaglenni Cymru Iachach wedi'u hymgorffori yng Nghanllawiau'r RIF, sef egwyddorion 'atal/ymyrryd yn fuan', 'diogelwch', 'annibyniaeth', 'llais', 'personol', 'di-dor', 'gwerth uwch', 'tystiolaeth' a 'datblygu' (2022, t.6-7).

2.14 Mae nifer o fentrau ar waith o dan *Cymru Iachach* sydd hefyd yn blaenoriaethu cymorth ar gyfer cynllunio integredig a darparu gwasanaethau ar draws systemau

iechyd a gofal. Er enghraifft, Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chlystyrau ledled Cymru, sydd â'r nod o wella integreiddiad gofal sylfaenol yn nes at y cartref, a sefydlu cysylltiadau tynnach rhwng cynllunio ar sail anghenion a darpariaeth gydweithredol, ymhlith nodau ac amcanion eraill (GIG Cymru, 2022).

**Newid**

2.15 Mae'r tirlun polisi hwn yn newid, wrth i fentrau newydd gael eu cyhoeddi. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno menter 'Ymhellach, Yn Gyflymach' yn ddiweddar i gyflymu'r gwaith o roi iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith (2023). Mae'r rhaglen hon, o'r enw 'Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach', yn canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn i fod gartref yn hytrach nag 'mewn ysbytai acíwt a chartrefi gofal' (2023, t.2). Mewn datganiad llafar yn y Senedd, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Gymraeg (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd) mai nod y fenter yw:

> '…osgoi'r sefyllfa a welsom ni'r gaeaf diwethaf gyda gormod o bobl agored i niwed yn methu â gadael ein hysbytai. Mae hyn hefyd yn rhan o'r daith barhaus tuag at ailgydbwyso cymorth iechyd y tu allan i ysbytai ac yn nes at gartrefi pobl unwaith eto.' (2023)

2.16 Mae'r datganiad ysgrifenedig o fwriad strategol ar gyfer y fenter uchod yn amlinellu'r anghenion a'r nod o feithrin gallu gofal sy'n seiliedig ar leoedd, a hynny ar sail pedwar o werthoedd: 'canolbwyntio ar unigolion', 'partneriaeth', 'synergedd' a 'dysgu am systemau a bod yn agored i newid' (2023, t.3). Unwaith eto, mae'r fenter yn defnyddio iaith 'cyflymu' yng nghyd-destun datblygu datrysiadau cymunedol integredig.

**Cymhlethdod adnoddau**

2.17 Mae'r systemau iechyd a gofal yng Nghymru, fel sy'n wir ledled gwledydd Prydain, yn wynebu pwysau acíwt ar adnoddau. Mae cadw'r gweithlu yn broblem fawr yng Nghymru. Mae nifer y swyddi gwag ar gyfer staff gofal cymdeithasol yn uchel (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022) ac fel sy'n wybyddus mae pwysau ariannol mawr yn effeithio ar ddarpariaeth, argaeledd a mynediad amserol at ofal iechyd a chymdeithasol.

## 3. Trosolwg o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Integreiddio cefndirol mewn polisi ac ymarfer

3.1 Nid yw strategaethau, strwythurau a chyllid i gefnogi iechyd integredig ac iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru yn newydd (Llywodraeth Cymru, 2004; Lewis, 2015; Best a Myer, 2017). Yn fwy cyffredinol, gellir olrhain agenda sector cyhoeddus Cymru ar gyfer cydweithio a chydgysylltu i weithrediad fframwaith strategol 2004, Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru. Mae hanes hir i bartneriaethau ffurfiol rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, fel y nodwyd gan Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru (2019, t.16).

3.2 Mae arloesiadau i ddatblygu mentrau integreiddio cymunedol wedi bod yn rhan o'r agenda hon. Er enghraifft, drwy ymchwil, mae Best a Myer (2015) yn archwilio cronfa i gefnogi cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd), sef ‘Cynllun Iechyd Gwledig – Darparu Gwasanaethau yn Well ar draws Cymru', gyda'i bwyslais ar ‘gyflymder’ o ran gweithredu arloesedd, datblygiadau cymunedol ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

3.3 Arweiniodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol at barhad polisi ar integreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Wallace et al (2022) yn crynhoi’r pwyslais polisi ar integreiddio a gwaith amlasiantaethol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel a ganlyn:

> ‘Mae'r Ddeddf ei hun yn defnyddio geiriau fel ‘cydweithrediad’, ‘integreiddio gofal’, ‘partneriaeth’, ‘trefniadau ar y cyd’ i ddisgrifio disgwyliad y Ddeddf ar y modd y dylen ni gydweithio. Mae Rheoliadau megis ‘Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cymorth a Gofal ar gyfer Asesu’r Boblogaeth (Cymru ) 2015’ a ‘Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015’ yn nodi termau megis ‘partneriaeth’ sy’n cynnwys swyddogaethau a threfniadau penodol megis byrddau partneriaeth penodol, rhannu gwybodaeth, cyllidebau cyfun a gweithdrefnau atgyfeirio.’ (2022, t.16)

3.4 I gyd-fynd â'r gofynion polisi hyn, cyflwynwyd cronfeydd penodedig i annog cyrff i fabwysiadu’r agenda iechyd a gofal cymdeithasol ataliol ac integredig. Roedd cynlluniau’r Llywodraeth oedd yn rhagflaenu’r RIF yn cynnwys y Gronfa Gofal Integredig (ICF), a rhagflaenwyd honno gan y Gronfa Gofal Canolraddol a’r Gronfa

Trawsnewid (TF). Roedd pob cronfa’n canolbwyntio ar gefnogi prosesau cydweithredol i gyflymu modelau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ataliol. Roedd y rheidrwydd i gyflymu wrth weithredu ar yr agenda integreiddio ac atal yn cael ei gyfleu yn y defnydd o ansoddeiriau fel ‘cyflymach’ a ‘cyflymu’.

3.5 Nod y Gronfa Trawsnewid, menter ariannu tair blynedd (2018-2021) i symud *Cymru Iachach* yn ei blaen oedd ‘…gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu’r modelau sy’n llwyddiannus a disodli’r rhai llai llwyddiannus neu rai sydd wedi dyddio’ (Llywodraeth Cymru, 2020, t.1). Dyrannwyd cyllid o £100m drwy fecanweithiau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Sefydlwyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o dan y Canllawiau Statudol ar Drefniadau Partneriaeth mewn perthynas â rhan 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fel y nodir yn y ddogfen Canllawiau Statudol hon:

> Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion eu priod boblogaethau yn y ffordd orau. (2020, t.5)

3.6 Yn Adroddiad Gwerthuso Terfynol y Gronfa Trawsnewid, mae Bebb, Bryer a Burrowes (2021) yn tynnu sylw at ddefnydd o'r arian mewn ffyrdd cadarnhaol i fwrw ymlaen â'r datblygiad cysyniadol ac ymarferol ac ailgyfeirio at gynlluniau cymunedol, ond hefyd effaith andwyol pandemig COVID-19 ar y gwaith integreiddio hwn. Dysgwyd gwersi ar lywodraethu, cydweithio a modelau ar gyfer gofal integredig. Nodwyd heriau hefyd o ran dyblygu modelau integredig lleol neu ranbarthol i'r cyd-destun cenedlaethol, ac o ran hyd yr amser sydd ei angen ar gyfer trawsnewid.

3.7 Dyrannodd y Gronfa Gofal Integredig, a oedd yn weithredol rhwng 2014 a 2022, arian hefyd i’r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru, gyda chylch gwaith penodol i gefnogi gwaith atal ac integreiddio er mwyn cyflawni canlyniadau iechyd a llesiant (Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2019; Bryer et al, 2022). Fel y noda Bryer et al, bwriad y gronfa hon oedd ‘…gwneud gwell defnydd o adnoddau drwy gydweithio a defnyddio modelau cyflawni amgen’ (2022, t.15). Mae canfyddiadau gwerthusiadau annibynnol yn tynnu sylw at werth y Gronfa o ran cefnogi mentrau ataliol a galluogi integreiddio rhwng sectorau a chydweithio (ibid., t.91). Adroddwyd

am ‘effaith gadarnhaol ar unigolion a chymunedau’ drwy well mynediad at wasanaethau ac o ran iechyd a llesiant (ibid., t.97-98).

3.8 At hynny, casglodd y gwerthusiad ddata rhanddeiliaid oedd yn dangos arwyddion o ailffocysu systemau tuag at ofal cymunedol, er bod terfyn i faint y gellir priodoli hyn i'r gronfa o ystyried y ffactorau cyd-destunol ehangach sy'n llywio gwasanaethau iechyd a gofal, a phartneriaid eraill. Unwaith eto, dysgir gwersi am ffactorau llwyddiant a rhwystrau, ac mae rhwystrau’n cynnwys effaith pandemig COVID-19, rhwystrau cyllido tymor byr a’r cyfyngiadau o ran trosglwyddo arfer da (2022, t.100). Mae’r mater o sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng canllawiau cyfarwyddol a chaniatáu disgresiwn rhanbarthol yn thema a ddaeth i’r amlwg yn y dadansoddiad gwerthuso (2022, t.104).

3.9 Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Gronfa Gofal Integredig (2019, t.14) a’r adroddiad gwerthuso annibynnol (Bryer et al, 2022, t.107) yn cynnwys argymhellion ynghylch yr angen am ddulliau mesur canlyniad y cytunir arnynt ar gyfer cronfeydd llywodraeth o’r natur hon, gyda Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu y dylid eu gosod o fewn fframweithiau canlyniadau cenedlaethol.

3.10 Yn erbyn y cefndir hwn, yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y RIF. Rhaglen gyllido pum mlynedd gan Lywodraeth Cymru yw’r RIF, sydd â chyfres o werthoedd, nodau ac amcanion sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ataliol ledled Cymru yn gyflymach ac yn barhaus. Mae datblygu, cydgrynhoi a phrif ffrydio chwe ‘model gofal’ integredig cenedlaethol a mabwysiadu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn greiddiol i uchelgais y RIF fel y’i nodwyd.

3.11 Ategir y RIF gan egwyddorion ynghylch yr hyn a all hwyluso a galluogi datblygiad, prif ffrydio a chynaliadwyedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Fel y nodwyd yn nogfen Ganllawiau RIF Llywodraeth Cymru, mae chwech o ‘nodweddion a gwerthoedd’ allweddol wedi’u nodi ar gyfer y Gronfa, a restrir isod.

- ‘Canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan
- Datblygu ac ymgorffori modelau gofal integredig cenedlaethol
- Rhannu dysgu ledled Cymru a thrwy Gymunedau Ymarfer
- Adnoddau hirdymor cynaliadwy er mwyn ymgorffori a phrif ffrydio modelau gofal newydd
- Creu trefniadau cyllido cyfun hirdymor

- Buddsoddi cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth'. (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.4)

3.12 Yr egwyddorion arweiniol allweddol yn y rhestr uchod yw atal ac ymyrraeth gynnar, gweithio aml-asiantaethol, gofal integredig a chynaliadwyedd.

3.13 Mae pum 'dull galluogi' yn y RIF – 'cynllunio a chomisiynu integredig', 'atebion technoleg a digidol', 'hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol', 'hybiau cymunedol integredig' a 'datblygu ac integreiddio'r gweithlu' (Llywodraeth Cymru, 2022a , t.21).

3.14 Yn ogystal, mae pum poblogaeth â blaenoriaeth ar gyfer y RIF, a dylid eu hystyried fel sail ar gyfer datblygiad y chwe model gofal cenedlaethol: 'pobl hŷn yn cynnwys pobl â dementia', 'plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth', 'pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroamrywiol a niwroddatblygiadol', 'gofalwyr di-dâl', a 'pobl ag anghenion iechyd a llesiant meddyliol emosiynol' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.24-28). Mae canllawiau'r RIF yn rhoi disgrifiad trosolwg ar gyfer pob un o'r grwpiau poblogaeth hyn ac yn gwneud hynny gan gyfeirio at adrannau allweddol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a dogfennau polisi neu strategaeth sy'n benodol i boblogaethau penodol. Mae gofyniad cyllid penodol o ran dyraniadau i gefnogi gofalwyr di-dâl (2022a, t.28), a 'phlant ar gyrion gofal/plant â phrofiad o ofal' (2022a, t.26).


3.15 Mae gofynion i'r gwaith a ariennir o dan y RIF ryng-gysylltu â strategaethau a rhaglenni eraill y Llywodraeth sy'n berthnasol i'r grwpiau poblogaeth a enwir uchod, e.e., *Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau* (2018-21), *Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl*, *Fframwaith NYTH*.

3.16 Mae'r modelau gofal wedi'u nodi isod (Llywodraeth Cymru, 2022a: t.42):

- Gofal cymunedol – atal a chydgysylltu cymunedol
- Gofal cymunedol – gofal cymhleth yn nes at y cartref
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion seiliedig ar lety

3.17 Mae canllawiau RIF Llywodraeth Cymru yn rhoi disgrifiad cryno o'i ffocws ar gyfer pob model gofal, gan osod hyn mewn cyd-destun polisi cyhoeddus perthnasol.

Rhoddir enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau neu wasanaethau y gallai'r RIF eu cefnogi mewn perthynas â'r model. Er enghraifft, mewn perthynas â 'Gofal cymunedol – atal a chydgysylltu cymunedol', mae pwyslais y Gronfa ar 'feithrin cadernid pobl a chymunedau, gan gymedroli'r galw am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol acíwt' (2022a, t.18) a chefnogi'r gallu i ddiwallu 'anghenion mwy cymhleth'. Mae buddsoddi mewn gwaith atal ac annibyniaeth mewn lleoliadau cymunedol yn un o ystyriaethau allweddol y model gofal hwn. Dangosir pedwar dimensiwn sgema'r Gronfa yn y diagram isod (Ffigur 3.1), sef dulliau galluogi, chwe model gofal, egwyddorion arweiniol a'r pum grŵp poblogaeth â blaenoriaeth.




**Ffigur 3.1: Strwythur y RIF**

(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2022a, t.16)

**Cyflwyno'r RIF**

3.18 Fel yr ysgrifennwyd yn y Canllawiau, y prif gyfryngau ar gyfer cyflawni uchelgeisiau'r RIF yw'r seilwaith cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol sefydledig, sef y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chyrff a rhwydweithiau rhanbarthol eraill ar gyfer cydweithio ac arloesi. Enghraifft o'r olaf yw'r Canolfannau Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu cynllun Cymru Iachach. Mae mecanweithiau rhanbarthol eraill yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus sy’n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac sy’n cynnwys yr awdurdod lleol, y GIG, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru a chyfranogwyr lleol eraill (Verity et al, 2018). Mae Clystyrau, Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan, a Dulliau Cyflawni Clystyrau yn fecanweithiau sydd wedi’u datgan ar gyfer gwaith cynllunio, gweithredu a chyflawni ar y cyd drwy Raglen Datblygu Clwstwr Carlam y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (GIG Cymru, 2022).

3.19 Mae'r gwaith a ariennir o dan y RIF hefyd yn ceisio cefnogi gwaith cyfnewid gwybodaeth ledled Cymru yng nghyd-destun y meddylfryd a'r datblygiadau sy'n ymwneud â modelau gofal cenedlaethol. Proses ar gyfer datblygu, cyfnewid a lledaenu gwybodaeth yw’r Cymunedau Ymarfer sy’n cael y dasg o ddyfnhau a rhannu gwybodaeth a dysg am y ‘glasbrintiau’ ar gyfer y gwaith hwn a datblygu manylebau cenedlaethol.

3.20 Mae Wenger, McDermott, a Snyder (2002, t.4) yn diffinio cymuned ymarfer fel grwpiau o bobl sy’n rhannu pryder, set o broblemau, neu angerdd am bwnc, ac sy’n dyfnhau eu gwybodaeth a’u harbenigedd yn y maes drwy ryngweithio'n barhaus”. O dan awenau’r RIF, mae chwe Chymuned Ymarfer wedi'u datblygu ym meysydd 'Gofal yn y Gymuned', 'Gofal wedi'i Galluogi gan Dechnoleg', 'Iechyd Meddwl ac Emosiynol', 'O'r Ysbyty i'r Cartref', 'Gofal a Chymorth yn Seiliedig ar Lety', 'Cefnogi Teuluoedd a Phlant â Phrofiad o fod mewn Gofal' (Llywodraeth Cymru, 2022b: t.1).


3.21 Maent yn agored i aelodaeth eang ac fe’u cyflwynir fel man cyfarfod i drafod ‘dysgu’ ac ‘arfer da’ ac i ddatblygu ‘…adnoddau i gefnogi’r gwaith o ddarparu a gweithredu modelau gofal cenedlaethol ac i rannu dysgu’n ehangach gyda chydweithwyr ledled Cymru’ (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.1-2). Mae gan bob Cymuned Ymarfer ei haelodaeth unigryw ac maent yn cwrdd yn aml.

3.22 Dangosir y rhyng-gysylltedd rhwng model gofal cenedlaethol, modelau rhanbarthol a datblygiadau lleol yn Ffigur 3.2 isod o ddogfen Ganllawiau’r RIF (Llywodraeth Cymru, 2022a).

**Cynaliadwyedd**

Mae cynaliadwyedd darparu modelau gofal cenedlaethol yn rhan annatod o nodau'r RIF. Un bwriad penodol yw bod adnoddau prif ffrwd yn disodli’r defnydd o’r RIF dros amser, a bod y broses o ariannu’r modelau’n defnyddio ‘trefniadau cyllido cyfun hirdymor’ (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.4). Fel y nodwyd yng Nghanllawiau'r RIF,

bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i dapro cyllid gan Lywodraeth Cymru fydd yn cael ei ddisodli gan fuddsoddiadau gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol.




**Ffigur 3.2: Cydgysylltedd model y RIF**

(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2022a, t.14)

3.23 Mae gan y Gronfa strwythur ariannu pedair rhan, gydag amodau a disgwyliadau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at arian ym mhob cydran. Y rhain yw- a) Cronfa Seilwaith Rhanbarthol Reolaidd, Cronfa Genedlaethol wedi'i Chlustnodi, y Gronfa Cyflymu Newid, a'r Gronfa Ymgorffori Modelau Cyflawni Cenedlaethol (2022a, t.27). Byrddau Iechyd Lleol yw deiliaid y cronfeydd, a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw'r cyrff sy'n gyfrifol am gynllunio, gwneud penderfyniadau a'r atebolrwydd am ddefnyddio'r cronfeydd (2022a, t.27).

3.24 At hynny, mae Canllawiau'r RIF yn glir ynghylch faint o arian cyfatebol partneriaid sydd i'w ddyrannu bob blwyddyn o oes y cynllun ariannu ac yn nodi gofynion penodol ar gyfer hyn (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.27, t.31). Mae'r RIF wedi datgan ymrwymiad i fuddsoddi yn y sector Gwerth Cymdeithasol ac mae'n nodi bod hyn ar 'o leiaf 20%' o ddyraniadau'r RIF yn y rhanbarthau (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.22). Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio Cynllun Strategol, Cynigion Buddsoddi Refeniw a Chynlluniau Cyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.35, t.39). Dulliau Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sydd i'w defnyddio wrth adolygu'r gwaith a wneir gan ddefnyddio cronfeydd y RIF.

### Canlyniadau rhaglen y RIF

3.25 Mae dogfen ganllawiau'r RIF yn nodi Fframwaith Canlyniadau ar gyfer y RIF. Mae'r fframwaith hwn yn tynnu gwahaniaeth rhwng tair lefel o ganlyniadau, fel y nodir yn y ddogfen Ganllawiau: 'canlyniadau trosfwaol ar gyfer y chwe model gofal', 'canlyniadau ac egwyddorion ehangach y system', a 'canlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.45). Mae’r canlyniadau hyn yn ymwneud ag iechyd a llesiant, mynediad, ansawdd a defnydd o wasanaethau a gofal a chymorth, iechyd a llesiant y gweithlu, a mabwysiadu egwyddorion penodol wrth ddatblygu a darparu modelau gofal.

### Crynodeb

3.26 I grynhoi, mae'r RIF ar yr un pryd yn lasbrint arweiniol, yn fecanwaith cynllunio a darparu adnoddau integreiddiol, ac yn gyfrwng dysgu i alluogi datblygiad modelau cenedlaethol cynaliadwy o iechyd a gofal cymdeithasol integredig effeithiol. Mae’r modelau integredig hyn, yn eu tro, yn ceisio cefnogi canlyniadau iechyd a llesiant unigol, canlyniadau system, a chanlyniadau’r gweithlu. Mae'r RIF yn gorwedd mewn cyd-destun deinamig, hylifol sydd o dan bwysau.

Fel y nodwyd yn nogfen Canllawiau Refeniw’r RIF:

> ‘…Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ysgogiad allweddol ar gyfer sbarduno newid a thrawsnewid trwy’r system iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd, fel y bydd modd i ddinasyddion Cymru, waeth ble maen nhw’n byw, fod yn dawel eu meddwl y cânt wasanaeth effeithiol a di-dor’ (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.8).

## 4. Fframwaith ar gyfer Newid

Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r synthesis polisi blaenorol, mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n amlinellu; 1) sylfeini cronfa'r RIF (h.y., ffactorau hanesyddol, egwyddorion/mecanweithiau polisi cyhoeddus a seilwaith integreiddio); 2) gweithgareddau'r RIF (h.y., beth fydd yn cael ei wneud); a 3) canlyniadau newid arfaethedig y RIF. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir y ffactorau cyd-destunol amrywiol a allai effeithio ar ei weithrediad a'i effeithiolrwydd ledled Cymru. Bydd y Fframwaith ar gyfer Newid yn sail i waith gwerthuso dilynol y RIF.

| **Sylfeini ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (RIF) |
|---|
| <ul><li>Hanes o bwyslais polisi cyhoeddus yng Nghymru ar gydweithio a chydgysylltu.</li><li>Egwyddorion y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** (2014)<ul><li>Llais a rheolaeth</li><li>Gwaith amlasiantaethol</li><li>Atal</li><li>Cydgynhyrchu</li><li>Llesiant</li></ul></li><li>Cyfeiriad strategol, cenhadaeth ac egwyddorion dylunio yn *Cymru Iachach* (h.y., ‘atal/ymyrryd yn fuan’, ‘diogelwch’, ‘annibyniaeth’, ‘llais’, ‘personol’, ‘di-dor’, ‘gwerth uwch’, ‘tystiolaeth’, 'datblygu') (Llywodraeth Cymru, 2018, t.6-7).</li><li>Fframwaith y Gymraeg a’r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (Llywodraeth Cymru, 2021a, t.13).</li><li>Isadeiledd a chapasiti integreiddio wedi’u galluogi gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy’n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a mecanweithiau cydweithredu eraill (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.6).</li><li>Cynllunio yn ôl angen y boblogaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</li><li>Gwaith a gwybodaeth o ran datblygu modelau gofal wedi’u galluogi drwy gronfeydd blaenorol Llywodraeth Cymru, y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a’r Gronfa Trawsnewid (TF).</li><li>Rhaglen Lywodraethu (2021-2026) a’r 10 amcan llesiant (Llywodraeth Cymru, 2021b, t.7-8).</li><li>Gwaith a wneir drwy dair Rhaglen Iechyd Genedlaethol (Gofal wedi’i Gynllunio, Gofal Brys ac Argyfwng a Gofal Sylfaenol), a Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (GIG Cymru, 2022).</li><li>Safbwynt mai ymdrech hirdymor yw trawsnewid (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 11).</li><li>Gwaith y Canolfannau Ymchwil ac Arloesi, sydd yno i gydgysylltu swyddogaethau ar lefel ranbarthol.</li><li>Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol</li></ul> |

| Gweithgareddau |
| --- |
| **Cynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau lleol a rhanbarthol integredig, wedi'u halinio â'r chwe model gofal:**<br>• Gofal cymunedol – atal a chydgysylltu cymunedol<br>• Gofal cymunedol – gofal cymhleth yn nes at y cartref<br>• Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da<br>• Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal<br>• Gwasanaethau gartref o'r ysbyty<br>• Atebion seiliedig ar lety (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.9)<br>**Cyfnewid gwybodaeth a datblygu modelau cenedlaethol drwy chwe Chymuned Ymarfer.**<br>'Gofal yn y Gymuned',<br>'Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg',<br>'Iechyd Meddwl ac Emosiynol',<br>'O'r Ysbyty i'r Cartref',<br>'Gofal a Chymorth Seiliedig ar Lety',<br>'Cefnogi Teuluoedd a Phlant a Phrofiad o fod mewn Gofal' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.1).[2]<br>**'Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol' a 'hybiau cymunedol integredig'**<br>**Adnoddau hirdymor cynaliadwy er mwyn ymgorffori a phrif ffrydio modelau gofal newydd.**<br>**Creu trefniadau cyllido cyfun hirdymor.**<br>**'Buddsoddi mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth'.** (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.4)<br>**'Datblygu ac integreiddio'r gweithlu'** |

[2] *Cylchlythyr Cymunedau Ymarfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* Awst 2022

## Canlyniadau

**Trosolwg**

Mae gan y RIF fframwaith canlyniadau manwl sy'n nodi canlyniadau ac egwyddorion rhyng-gysylltiedig ar lefelau 'iechyd a llesiant unigolion a'r boblogaeth', 'canlyniadau ac egwyddorion systemau ehangach', a chanlyniadau ar gyfer cyrhaeddiad a chynaliadwyedd pob un o'r chwe model gofal cenedlaethol a enwyd (Llywodraeth Cymru, 2022a, t.41).

Mae fframwaith canlyniadau cyffredinol y RIF wedi'i atgynhyrchu isod. Mae manylion y canlyniadau penodedig ar gyfer pob un o'r chwe model gofal cenedlaethol (dau ganlyniad i bob model) wedi'u nodi ar dudalennau 41-43 o ddogfen Ganllawiau'r RIF.

**FFRAMWAITH CANLYNIADAU'R RIF**

**Cyd-destun**

Mae canlyniadau ac egwyddorion y RIF yn gorwedd o fewn cyd-destun y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a'r canlyniad bod '**holl drigolion Cymru yn mwynhau iechyd a llesiant da**'.

**Canlyniad trosfwaol ar gyfer y Modelau Gofal**

- 'Mae Modelau Gofal yn diwallu anghenion y grwpiau poblogaeth ac yn ymwneud â'r galluogwyr allweddol'

↕

**Canlyniadau system ehangach**

- 'Mae pobl yn iachach ac yn hapusach

- Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn well ac yn haws cael mynediad atynt

- Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn arloesol ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf

- Eir ati i ofalu am staff iechyd a gofal, ac maent yn llawn cymhelliant

↕

**Canlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**

- 'Mae pobl yn teimlo'n fwy abl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddynt

- Mae gan bobl lais cryfach a mwy o reolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth

- Mae pobl yn fwy ymwybodol o'r math o wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael ac a leolir yn eu hardal

- Gall pobl gael gwell mynediad at ofal a chymorth yn eu cartrefi neu'n agos at eu cartrefi.

(Atgynhyrchwyd o Ganllawiau'r RIF, Llywodraeth Cymru, 2022a, t.45)

## Cyfeirnodau


Archwilydd Cyffredinol Cymru. (2019) Adroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig. Caerdydd. Ar gael yn Archwilydd Cyffredinol Cymru. (2019) Adroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig. Caerdydd

Bebb, H., Bryer, N., a Burrowes, E. (2021) Diweddariad Blynyddol – Gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach', ob3. Caerdydd.

Best, S., Myers, J. (2019) 'Prudence or speed: Health and social care innovation in rural Wales', Journal of Rural Studies, 70: 198-206, ISSN 0743-0167, Best, S., Myers, J. (2019) 'Prudence or speed: Health and social care innovation in rural Wales', Journal of Rural Studies, 70: 198-206, ISSN 0743-0167,

Bryer, N., Bebb, H., Garthwaite., T a Llewellyn, M. (2022) Gwerthusiad Cronfa Gofal Integredig, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Lewis, M. (2015) 'Integrated care in Wales: a summary position'. Llundain J Prim Care (Abingdon). 2015;7(3):49-54. Lewis, M. (2015) 'Integrated care in Wales: a summary position'. Llundain J Prim Care (Abingdon). 2015;7(3):49-54. PMID: 26217406; PMCID: PMC4494466.

Llewellyn. M, Verity. F, Wallace. S, Calder. G, Garthwaite. T, Lyttleton-Smith. J, a Read, S. (2023). O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynol ar Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 36/2023. Ar gael drwy: Adroddiad terfynol: gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | LLYW.CYMRU

Patton, M. Q. (2018). Principles-Focused Evaluation – The GUIDE. Efrog Newydd: Gwasg Guilford

Skills for Care. (2019) Prevention in social care: where are we now? Leeds.

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2022) Adroddiad y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn Gofal Cymdeithasol Cymru. (2022) Adroddiad y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Wallace, C., Orrell, A., Garthwaite, T., Tetlow, S, a Wallace, S. (2022) 'Adolygiad llenyddiaeth aml-asiantaeth'. Yn Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (goln.) (2022). Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth. Ail argraffiad. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 42/2023. Ar gael drwy: Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth | LLYW.CYMRU

Wallace, C. a Garthwaite, T. (2023). Gweithio'n aml-asiantaethol: Ymchwil i ategu'r Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 39/2023. Ar gael drwy: Gweithio'n aml-asiantaethol: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru, 2004 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru, 2004

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2007) Bywydau bodlon, cymunedau cefnogol: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf. Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael drwy: Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol | www.basw.co.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2011) Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu. Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(2011) Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu. Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael drwy: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

Llywodraeth Cymru. (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael drwy: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

Llywodraeth Cymru. (2018) Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gael yn: Llywodraeth Cymru. (2018) Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol – cyrchwyd 13 Gorffennaf 2023.

Llywodraeth Cymru. (2021a) Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru – Gweledigaeth, Diben, Gwerthoedd a Dyfodol a Ragwelir erbyn 2030. Ar gael drwy: 41912 Cymru Wrth-hiliol – Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru (llyw.cymru) – cyrchwyd 13 Gorffennaf 2023.

Llywodraeth Cymru. (2021b) Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant. Ar gael drwy: Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant | LLYW.CYMRU – cyrchwyd 13 Gorffennaf 2023.

Llywodraeth Cymru. (2022a) Canllawiau, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF) 2022-2027. Ar gael drwy: Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Canllawiau Refeniw 2022-27 (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru. (2022b) Cylchlythyr Cymunedau Ymarfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Awst 2022. Ar gael drwy: LI503834-A-Healthier-Wales-Communities-of-Practice-Newsletter-English-Sept-2022.pdf (brookes.ac.uk)

Llywodraeth Cymru. (2023a) Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach [ar-lein]. Ar gael yn: Llywodraeth Cymru. (2023a) Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach [ar-lein]. – cyrchwyd 13 Gorffennaf 2023.

Llywodraeth Cymru. (2023b) Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach. Ar gael yn Llywodraeth Cymru. (2023b) Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach.

GIG Cymru. (2022) Briff Cefndirol Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol [ar-lein].

Wenger, E., McDermott, R., a Snyder, W.M. (2002). Cultivating communities of practice: A guide to managing knowledge. Boston. Gwasg Ysgol Fusnes Harvard.